Creu coetiroedd Glastir: canllaw mapio a chymhwyster

Cynulleidfa

Bwriad y canllaw hwn yw rhoi arweiniad i swyddogion prosiect wrth asesu addasrwydd ardaloedd ar gyfer creu coetiroedd, a gall ymgeiswyr sy'n dymuno pennu a yw cynllun yn bosibl ar eu tir ei ddefnyddio.

Cefndir

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi rhoi tasg i Gomisiwn Coedwigaeth Cymru weinyddu cynllun creu coetiroedd Glastir tan 1 Ionawr 2013. Bydd ceisiadau i'r cynllun yn cynnwys defnyddio swyddogion prosiect (SP) wedi'u cyflogi gan Gomisiwn Coedwigaeth Cymru a fydd yn cwblhau'r broses ar gyfer ymgeiswyr.

Er mwyn galluogi ymgeiswyr i wirio'n gyflym a ellir plannu ardal a sicrhau bod ceisiadau'n gallu mynd ymlaen yn gyflym, mae Comisiwn Coedwigaeth Cymru wedi gweithio gyda chyrff cadwraeth yng Nghymru i sefydlu ardaloedd lle nad oes angen unrhyw ymgynghori. Mae'r ardaloedd "gwyrdd" hyn wedi cael eu mapio ac maent ar gael gan ddefnyddio porwr mapio ar y we. Mae cyfyngiadau ychwanegol mewn rhai ardaloedd, ac mae'r rhain wedi cael eu marcio fel ardaloedd deor gwyrdd, e.e. ardaloedd sy'n bwysig ar gyfer llygoden y dŵr neu'r wiwer goch.

Sefydlwyd ardaloedd eraill lle tybir y gall plannu fynd yn ei flaen ond mae rheswm canfyddedig dros ymgynghori. Ardaloedd "ambr" ar y mapiau yw'r rhain.



Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
The European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Canllaw mapio a chymhwyster swyddogion prosiect

Yr ardaloedd eraill sydd mewn "coch" ar y mapiau yw'r mannau lle mae yna ragdybiaeth yn erbyn plannu. (Nodyn: Mae rhannau o'r mapiau yn yr ardaloedd yma yn ymwneud â sgwariau 1km sy'n dynodi presenoldeb rywogaethau yn hytrach na lleoliad union. Dylai'r ymgeisydd neu'r Swyddog Prosiect lenwi ffurflen apêl os ydyn yn teimlo nad yw'r cyfyngiad yn ddilys.

http://www.forestry.gov.uk/pdf/GWC_Mapping_Appeal_Welsh20101102.pdf/$FILE/GWC_Mapping_Appeal_Welsh20101102.pdf

a'i ddanfon at Reolwr Gweithrediadau CCC fydd yn penderfynu p'un ai i sialensio maint yr ardal 'goch' gyda'r corff sydd wedi nodi'r rhain neu beidio (Gellir edrych ar ddisgrifiad a rhestr o'r haenau hyn ar brif dudalen wefan creu coetir)

Gwirio cymhwyster ceisiadau ac ymgynghori

Trefnwyd bod y mapiau ar gael i ymgeiswyr a swyddogion prosiect gan ddefnyddio porwr ar y we sydd ar gael ar wefan Comisiwn Coedwigaeth Cymru. Mae cyfarwyddiadau a chymorth ar gyfer gweithredu'r offeryn porwr ar gael yma hefyd.

Gall y swyddog prosiect chwilio am ardal y cais gan ddefnyddio'r swyddogaeth 'chwilio', a fydd yn derbyn cod post, cyfeirnod grid neu enw lle.
Pan ddeuir o hyd i'r lleoliad, gellir gweld yr ardaloedd sydd wedi'u cofrestru ar system parseli tir LlCC. Gellir dim ond gwneud ceisiadau ar ardaloedd sydd wedi'u cofrestru gyda LlCC a dylai swyddogion prosiect gau unrhyw geisiadau lle nad yw'r ardal wedi'i chofrestru a gofyn i'r ymgeisydd gofrestru ei dir gyda LlCC.
Caiff haen y parsel tir ei diweddaru'n rheolaidd.

Wedyn, gall y defnyddiwr wirio'r maes cymhwyster yn ôl maes.

Ardaloedd gwyrdd

Os yw'r ymgeisydd mewn ardal 'werdd', yna does dim angen ymgynghori o gwbl; gall y cais fynd ymlaen heb unrhyw gyfyngiad.

Ardaloedd deor gwyrdd

Os yw'r ardal yn cynnwys mannau deor gwyrdd, gall y plannu fynd ymlaen heb ymgynghori. Fodd bynnag, mae'r mesurau arbennig sy'n gysylltiedig â'r mannau deor gwyrdd yn berthnasol a bydd Comisiwn Coedwigaeth Cymru yn anfon y rhain atoch fel rhan o'r gwiriad cyfyngiadau (Sylwch y bydd y wybodaeth hon ar gael ar y porwr yn y pen draw a bydd angen dod o hyd i'r wybodaeth gan ddefnyddio'r botwm 'adnabod'.)

Canllaw mapio a chymhwyster swyddogion prosiect

Ardaloedd ambr

Os yw'r ardal neu ran o'r ardal yn 'ambr', yna mae angen ymgynghori (gweler isod) a gall hyn gyfyngu ar y math neu'r ardal o goetir y gellir ei blannu/phlannu. Efallai y bydd hefyd angen cynnal arolwg pellach o'r ardal i bennu graddau cynefin pwysig, er enghraifft, i fapio ardaloedd ychwanegol o fawn dwfn.

Bydd Comisiwn Coedwigaeth Cymru yn anfon gwybodaeth am yr hyn sydd wedi sbarduno 'ambr' at y swyddog prosiect. Yn y pen draw, bydd y wybodaeth hon ar gael ar y porwr trwy'r botwm 'gwybodaeth' a fydd yn dangos pa haen(au) sydd wedi sbarduno'r angen i ymgynghori. Ar y rhestr haenau, gwelir y cyfeiriad a'r cyfarwyddiadau ar gyfer ymgynghori trwy glicio ar destun glas enw'r haen. Bydd hyn yn dangos dogfen PDF i'r swyddog prosiect gan roi manylion cyswllt ar gyfer ymgynghori a gwybodaeth arall ar gyfer yr haen.

Ardaloedd coch

Os yw'r ardal yn 'goch', yna mae'r rhagdybiaeth yn erbyn plannu a bydd naill ai angen tynnu'r ardal o'r cais neu bydd angen cau'r cais. Mae'r weithdrefn i bennu pa haen o wybodaeth sydd wedi pennu bod yr ardal yn 'goch' yr un fath â'r hyn a ddisgrifir uchod; mae rhai o'r mapiau yn yr ardaloedd hyn yn ymwneud â sgwariau 1 cilomedr sy'n dangos presenoldeb rhywogaeth yn hytrach nag union leoliad. Pan fydd ymgeisydd yn teimlo nad yw'r cyfyngiad yn ddilys, dylai gysylltu â Rheolwr Gweithrediadau Comisiwn Coedwigaeth Cymru a fydd yn penderfynu p'un a ddylid herio'r cyfyngiad gyda'r corff perthnasol ai peidio. Os yw'r perchennog yn herio'n llwyddiannus, gall ailymgeisio pan fydd y mapiau wedi cael eu diwygio i adlewyrchu'r penderfyniad.

Os yw'r arddangosiad yn dangos mai dim ond rhan o gae sy'n goch neu'n ambr, yna gall yr ymgeisydd benderfynu eithrio'r ardaloedd sydd wedi'u heffeithio a dim ond gwneud cais am y gyfran werdd o'r cae. Bydd angen marcio'r ardaloedd hyn ar y tir a'u mapio'n gywir, gan ddefnyddio GPS os oes modd.
Os bydd ardal yn dangos 'glas' ar y map creu, yna mae'n goetir sefydledig a dylid ei eithrio hefyd; eto trwy fapio rhan o gae os bydd angen. Dylai'r ardaloedd a ddefnyddir fod dros yr ardaloedd lleiaf a'r trothwyon lled ar gyfer Cynllun Creu Coetiroedd Glastir.

Bydd angen i ymgeiswyr sicrhau eu bod yn hysbysu LICC am ffiniau newydd y cae i sicrhau bod eu cofrestriad tir yn parhau i fod yn gyfoes.

Ymgynghori

Os bydd ardal ambr yn rhan o gais, yna mae rhagdybiaeth y bydd y plannu yn cael ei ganiatáu, ond rhaid ymgynghori gyda'r corff perthnasol yn gyntaf. Mae'r swyddog prosiect

yn gyfrifol am gytuno ar unrhyw amodau neu gyfyngiadau gyda'r ymgynghorai cyn cyflwyno cais o fewn unrhyw ardal ambr.

Dylai'r swyddog prosiect argraffu â sgrin y map o'r cais arfaethedig ynghyd â manylion pob haen sydd wedi sbarduno ymgynghoriad. Dylid anfon y rhain at yr ymgynghorai a ddangosir yn y gwiriad cyfyngiadau.

Os bydd mwy nag un corff yn gysylltiedig, yna bydd angen gwneud hyn ar gyfer pob un o'r ymgynghoreion dan sylw. Dylai holl fanylion yr ymgynghoriad gael eu cadw gan y swyddog prosiect a ddylai gydymffurfio â'r amodau ar y cais a osodwyd gan yr ymgynghorai. Pan fydd y plannu posibl wedi cael ei gytuno gydag ymgynghoreion, dylai'r swyddog prosiect lwytho llythyrau caniatâd i'r achos. Dylai'r swyddog prosiect drafod unrhyw wrthodiad neu amodau afresymol neu gyfyngiadau gyda Chomisiwn Coedwigaeth Cymru.

Mapio ceisiadau

Bydd angen i'r swyddog prosiect argraffu â sgrin o'r porwr a naill ai argraffu hwn ar bapur a marcio'r caeau a'r rhannau o'r caeau i'w plannu neu ddefnyddio'r ddelwedd sgrin mewn rhaglen tynnu llun. Dylai'r argraffiad sgrin fod ar raddfa addas ar gyfer yr ardal dan sylw ac yn ddelfrydol, ni ddylai fod yn fwy na graddfa 1:5000. Rydym yn argymell y dylai ardaloedd gwasgaredig gael argraffiad sgrin ar gyfer pob ardal. Dylai'r argraffiad sgrin hefyd gynnwys map sylfaenol Arolwg Ordnans, ffiniau caeau IACS a chyfeirnod grid. Dylai'r swyddog prosiect amlygu caeau IACS neu rannau o gaeau i'w plannu ac nid ffiniau mapiau sylfaenol.

Os yw'r rhaniad yn seiliedig ar y data sgrin, yna anodwch y map, h.y. "defnyddiwch ffin yr ardal goch i rannu'r cae hwn". Os nad yw'r rhaniad yn seiliedig ar linell sy'n bodoli eisoes, yna defnyddiwch GPS i nodi'r mannau troi, h.y. "man rhannu ar y ffens bresennol; sn23455,78910" "man troi ar y ffens sn34567,89101" Gall eich GPS ddefnyddio cyfeirnodau 6 ffigur a hepgor sgwâr grid yr Arolwg Ordnans, h.y. "223455,278910.

Os bydd unrhyw amheuon yn bosibl ar y mapiau, h.y. cloddiau yn dilyn llinellau draen, yna anodwch y map i sicrhau cywirdeb, h.y. "bydd y ffens newydd yn dilyn y clawdd, nid y draen sy'n baralel".

Dylai'r swyddog prosiect wedyn anfon y mapiau a gynhyrchwyd ar gyfrifiadur i bww.ts@forestry.gsi.gov.uk. Dylid anfon copïau papur i gyfeiriad swyddfa Clawdd Newydd, a welir isod. Dylid marcio pob un gyda rhif yr achos a dylent gynnwys pob is-doriad a ffens.

Coetiroedd Glastir
Comisiwn Coedwigaeth Cymru
Clawdd Newydd
Rhuthun

Canllaw mapio a chymhwyster swyddogion prosiect

LL15 2NL

Dylid rhoi copi i'r perchennog i gwblhau unrhyw newidiadau i gofrestriad tir.